Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Gwybodaeth i Gleifion
Monitro actif

Adran Wroleg

Beth yw monitro actif?

Mae monitro actif yn cynnwys monitro eich prawf gwaed PSA yn rheolaidd a chynnal archwiliadau rheolaidd ar y prostad. Nid mater o wneud dim ac anghofio amdanoch yw hyn. Gall hwn fod yn benderfyniad anodd i'w wneud ac mae angen ei wneud ar sail holl ganlyniadau eich prawf a'r penderfyniad rydych yn ei wneud gyda'ch meddyg.

O bryd i'w gilydd, mae'n bosibl y gofynnir am ragor o biopsïau. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r canser yn eich prostad yn dod yn fwy ymosodol neu'n tyfu.

Pam ydy'n ni'n cynnal monitro actif yn lle triniaeth?

Mae eich canlyniadau yn awgrymu bod y canser yn annhebyg o achosi problemau mawr i chi yn y dyfodol ac felly gallai fod yn well osgoi triniaeth feddygol/lawfeddygol actif a'r sgil effeithiau y gallai triniaethau felly achosi. I lawer o ddynion, mae'r tebygrwydd o farw oherwydd rheswm arall yn llawer uwch na'r tebygrwydd o farw o'r canser ar y prostad ei hun. Mae hyn yn berthnasol yn arbennig mewn dynion hŷn, efallai bod y canser yn tyfu'n araf. Mae monitro actif yn annhebygol o effeithio ar am ba hyd rydych chi'n byw ond bydd yn eich galluogi i gynnal eich safon byw.

Beth yw manteision monitro actif?

Diffyg sgil effeithiau sy'n gysylltiedig â thriniaeth megis analluedd, anymataliaeth. Ni fyddwch yn colli amser o'ch gwaith neu hobïau.

Oes unrhyw risgiau?

Nid yw profion PSA ac archwiliadau prostad yn gwbl ddidwyll ac weithiau gall y canser ledu yn gyflym ac yn anrhagweladwy ac achosi symptomau lleol megis dargadwad wrin. Mae felly'n bwysig eich bod yn mynd i'ch apwyntiadau er mwyn i ni allu monitro unrhyw newidiadau yn fuan.

Os yw hyn yn digwydd, a ellir gwneud unrhyw beth?
Hyd yn oed os yw hyn yn digwydd, dylai'r canser ymateb i driniaeth hormon. Ni fydd yn gwella'ch canser ond gall helpu i reoli twf y canser am nifer o flynyddoedd.

Crynodeb
Monitro actif yw'r broses o gadw llygad gofalu ar eich afiechyd ac ymyrryd pan fo'n briodol. Mewn geiriau eraill, caiff triniaeth ei hosgoi tan bydd symptomau neu mae dangosyddion eraill megis PSA uwch. Mae'n bosibl y teimlwch yr hoffech driniaeth er mwyn ceisio gwella eich canser, dylech ddarllen y taflenni radiotherapi radical a prostatectomi radical a thrafod eich opsiynau triniaeth â'ch meddyg cyn gwneud penderfyniad. Cofiwch, nid yw monitro actif yn briodol i bob dyn, mae'r un peth yn wir am driniaethau radical ar gyfer canser ar y prostad.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, gweler y manylion cyswllt isod ar gyfer y wardiau Wroleg a'r nyrsys Wroleg:-

Wroleg Ward D 2 Dwyrain
01633 234043 / 234044 (24 awr)

Adran Cleifion Allanol Wroleg
01633 234979
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Ward Dydd Wroleg
01633 656378 / 656377
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Nyrsys Clinigol Arbenigol Wro-Oncoleg
Julie Simpson
Sian Lewis
Louise Broadway
Kathleen Connor-Middleton
01633 238976 (Bydd yn dychwelyd negeseuon llais pan nad ydynt ar ddyletswyddau clinigol)
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Ymarferydd Nyrsio Wroleg

Laura Reynolds
Leanne Denning
01633 234758
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Ymholiadau llawdriniaeth/cyn-derbyn

01633 234970 / 238568
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Cyfieiriadau:- Tanagho E A McAninch J W 2003. Smiths General Urology

"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English."